# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ1573(FM) a gyhoeddwyd gan Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar rhan y Prif Weinidog

**At David Lloyd:**

Rwy’n ysgrifennu atoch yn dilyn Cwestiwn Llafar y Cynulliad 1573 a ofynnwyd yn Sesiwn Gwestiynau Prif Weinidog Cymru ar 23 Mai. Rwy’n ymddiheuro am beidio ag ateb ynghynt.

Roedd yr hyn a ddywedodd Prif Weinidog Cymru yn gywir. Roedd yr amcangyfrif gwreiddiol a wnaethpwyd yn 2002/3 ar gyfer cost gweithio y tu allan i oriau arferol yng Nghymru yn £28.5 miliwn, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn nyraniadau ariannol presennol y Byrddau Iechyd Lleol. Gwnaethpwyd yr amcangyfrif drwy ddefnyddio ffigyrau a addaswyd i ystyried y costau tebygol ar gyfer y flwyddyn 2004/5. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion mae’r gwasanaethau sy’n cael eu darparu ar hyn o bryd wedi cael eu hail-ddylunio, ac yn cynnwys gweithgareddau ychwanegol; er enghraifft, sicrwydd ar gyfer ysbytai cymunedol. Nid oes amheuaeth bod y gost wedi cynyddu, a bod hyn wedi digwydd yn bennaf o ganlyniad i gyfraddau cyflog uwch ar gyfer meddygon teulu. Ar y llaw arall, mae effeithlonrwydd sylweddol wedi cael ei gyflawni drwy gydweithio’n agosach ag eraill sy’n darparu gofal y tu allan i oriau arferol, megis Galw Iechyd Cymru. Yn ogystal â hyn, rydym wedi cyflwyno safonau newydd o wasanaeth. O ganlyniad, nid yw’n bosib gwneud cymariaethau ystyrlon rhwng yr amcangyfrif a wnaethpwyd ar gyfer 2002-03 a’r model newydd, a fydd yn parhau i ddatblygu.